

Manifesto Bywydau Wedi'u Dwyn

Grŵp Ymgyrch Bywydau Wedi'i Dwyn: Pwy ydym ni?

Rydym yn grŵp o deuluoedd sydd ag anwyliaid ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth sy'n byw, neu wedi byw, mewn ysbyty iechyd meddwl prif ffrwd neu darpriaeth anabledd dysgu arbenigol amhriodol.

Yn ymuno â ni mae cynghreiriaid o wahanol sefydliadau sy'n ein cefnogi, gan gynnwys sefydliadau hunan-eiriolaeth, sefydliadau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr ar gyfer pobl anabl, ymchwilwyr ac actifyddion.

Mae pum prif gam gweithredu yr ydym am i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hwy. Rydym hefyd am i gomisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol weithredu'n bendant ar lefel leol. Byddem wrth ein bodd pe bai mwy o bobl yn gyffredinol yn gwybod am yr anghyfiawnder gwarthus hwn ac yn siarad i fyny ac allan.

1. Mae arnon ni eisiau i chi ddarganfod a dweud wrthym faint o blant, pobl ifanc ac oedolion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth sydd i ffwrdd o'u cartrefi mewn ysbyty amhriodol ac unedau asesu a thriniaeth, fel y'u gelwir?

2. Mae arnon ni eisiau i chi ddweud wrthym sut y byddwch yn dod ag aelodau ein teulu yn ôl yn nes

adref ac i mewn i ddarpariaeth sy'n bodloni eu hanghenion.

3. Mae arnon ni eisiau i chi ddeall yr hyn y mae teuluoedd fel ein un ni yn ei brofi bob dydd, i glywed ein lleisiau, ac i weithredu ar ein pryderon.

4. Rydym yn credu nad ydy neilltuo pobl i ysbyty iechyd meddwl yn ateb, dim ond oherwydd bod gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr gwasanaethau yn methu â diwallu anghenion pobl ag anabledau dysgu a phobl awtistig.

5. Rydym angen i chi weithio gyda sefydliadau sy'n cynrhychioli pobl ag anabledau dysgu a phobl awtistig, yn ogystal ag aelodau o'r teulu, i gynhyrchu cymorth gwell.

1. Mae arnon ni eisiau i chi ddarganfod a dweud wrthym faint o blant, pobl ifanc ac oedolion ag anabledau dysgu a/neu awtistiaeth sydd i ffwrdd o'u cartrefi mewn ysbyty amhriodol ac unedau asesu a thriniaeth, fel y'u gelwir?

Yn gyffredinol, mae yna diffyg data gwahaniaethol o ansawdd uchel am fywydau pobl ag anabledau dysgu a phobl awtistig yng Nghymru fel y cyfeirir ato yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2023)., [‘A yw Cymru’n Decach?’](#) sy'n dweud:

Mae anawsterau o ran deall yr anghydraddoldebau a wynebir gan grwpiau penodol o bobl anabl. Nid yw'r gwahaniaethau yn y bylchau a'r cyfraddau rhwng grwpiau bob amser yn glir, oherwydd y diffyg tystiolaeth sydd ar gael, problemau cydgrynhoi neu sampl a maint poblogaeth yn y data. Er enghraifft, gall y problemau a wynebir gan bobl ag anabledau dysgu gael eu cuddio trwy gydgrynhoi neu gyfuno ag anawsterau dysgu yn un categori mewn setiau data.

... a “Cydnabyddir bod data ar bobl ag anabledd dysgu yn wael yng Nghymru.” ([Rhaglen Gwella Bywydau, 2018](#)). Mae'r ffaith yr oedd yna bobl o Gymru yn Winterbourne View, '...yn codi'r materion o'r angen am data ar ble mae pobl ag anabledd dysgu, sut mae monitro y tu allan i'r sir a'r tu allan i'r wlad yn digwydd ac a yw pobl e.e. , teuluoedd a gofalywr, fod yn rhan o'r trefniadau arolygu.'

We call for a National Learning Disability Observatory for Wales and keenly await the outcome of, “a feasibility study to identify costs/benefits of establishing a LD Observatory for Wales – by Apr 2024.” [Learning disability delivery and implementation plan 2022 to 2026 \(2023\)](#)

Rydym yn galw am Arsyllfa Genedlaethol Anabledd Dysgu i Gymru ac yn disgwyl yn eiddgar am ganlyniad, “astudiaeth ddichonoldeb i nodi costau a manteision sefydlu Arsyllfa Anabledd Dysgu ar gyfer Cymru – erbyn mis Ebrill 2024.” [Cynllun cyflenwi a gweithredu ar gyfer anabledd dysgu 2022 i 2026](#)

Mae'n rhaid i nifer cyffredinol y bobl sy'n byw 'bywydau wedi'u dwyn' fod yn hysbys. Hyd yn oed os yw'r niferoedd yn fach, mae angen gweithredu ar frys ar y materion hyn. Mae teuluoedd unigol wedi cael gwybod bod hwn yn 'fater arbenigol' am gyfnod rhy hir. Gall Arsyllfa helpu i lywio polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys mewn perthynas â'r sgandal barhaus o farwolaethau cynamserol pobl ag anableddau dysgu ([Can you spot the difference? We Can't, 2023](#)). Nid oes unrhyw ddata y gallwn ddod o hyd iddo ar farwolaethau cynamserol pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru.

Mae [Improving Care, Improving Lives](#) (2020): yn giplun disgrifiadol o ddata perthnasol (gyda llu o argymhellion heb eu gweithredu i raddau helaeth gydag edafedd na ellir eu holrhain o ganlyniad/atebolrwydd gwirioneddol). Mae cyflwyno data yn gweithio ar y dybiaeth bod grŵp statig o bobl mewn unedau cleifion mewnol. Er bod llawer iawn o bobl mewn lleoedd ers blynyddoedd a blynyddoedd, mae yna hefyd bobl yn mynd i mewn ac yn dod allan o ysbytai, weithiau dro ar ôl tro, nad yw cipluniau o'r fath yn ei datgelu. Mae'n bwysig cael gwybodaeth sy'n cyfleu hyn – un cwestiwn syml fyddai:

Faint o wahanol bobl dros gyfnod o flwyddyn sydd wedi treulio peth amser mewn uned cleifion mewnol?

Rydym hefyd yn ymwybodol o bobl ag anableddau dysgu sydd wedi mynd i'r ysbyty oherwydd problemau meddygol gwirioneddol (problemau iechyd meddwl a chorfforol) ac nad ydynt wedi cael eu hailsefydlu yn ôl i'r gymuned. Gwyddom am un dyn sydd yn dal yn y fath sefyllfa ar ôl chwe deg chwech o flynyddoedd! Gwyddom hefyd fod llawer o bobl ag anableddau dysgu a phobl awtistig yn treulio amser (cyfnodau byr weithiau) mewn gwasanaethau cleifion mewnol iechyd meddwl 'prif ffrwd' nad ydynt yn ymddangos mewn setiau data eraill ac y gellir eu hanwybyddu mewn termau polisi. Mae'n bwysig bod pobl yn yr amgylchiadau hyn yn weladwy ac yn rhan annatod o bolisi, oherwydd hyd yn oed os bydd unedau cleifion mewnol 'arbenigol' yn cau, gallai olygu bod pobl yn hytrach yn treulio amser mewn wardiau iechyd meddwl prif ffrwd ar gyfer cleifion mewnol. Nid ydym yn ymwybodol

o waith i weld sut mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio ai peidio ar gyfer pobl ag anabledau dysgu a phobl awtistig.

2. Mae arnon ni eisiau i chi ddweud wrthym sut y byddwch yn dod ag aelodau ein teulu yn ôl yn nes adref ac i mewn i ddarpariaeth sy'n bodloni eu hanghenion.

Ni welwn unrhyw frys, dim arweinyddiaeth, dim polisi na strategaeth sy'n mynd i ddatrys hyn. Yn Lloegr, mae adolygiadau diddiwedd ac addewidion i leihau nifer y bobl sydd â 'bywydau wedi'u dwyn' i gyd wedi methu'n llwyr. Mae Barbara Keeley AS yn ysgrifennu:

“The Government's answers to my Parliamentary Questions tell you everything you need to know about the ... [appalling lack of action](#) to end the detention of autistic people and people with learning disabilities in inappropriate inpatient settings.”

Nid ydym yn dod o hyd i unrhyw nodau penodol y gellir eu gweithredu mewn perthynas â phobl â bywydau wedi'u dwyn. Mae Gwella Bywydau 2020 yn ddisgrifiad disgrifiadol heb unrhyw argymhellion arwyddocaol i lywodraeth Cymru. Mae Adran 3.1 y Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022-2026 (2022) yn nodi:

3.1 Gweithredu argymhellion yr adolygiad o Wasanaethau Arbenigol i Oedolion yn 2020, “Gwella Gofal, Gwella Bywydau” yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol.”

1. Llai o dderbyniadau drwy fwy o raglenni cymorth cymunedol i atal argyfyngau / ymyrryd yn gynnar.
2. Mynediad at ofal arbenigol diogel ac effeithiol o ansawdd uchel mor agos â phosibl i'r cartref.
3. Cefnogi unigolion i ddychwelyd adref/yn agos i'w cartrefi cyn gynted â phosibl.

Ond sut yn union? Pryd? Gan bwy? Pwy sy'n atebol yn y pen draw i sicrhau bod y pethau hyn yn digwydd? Mae absenoldeb penodoldeb wedi'i nodi gan [Anabledd Dysgu Cymru](#):

Tra ein bod yn credu bod gan y cynllun hwn botensial i wneud gwahaniaeth sylweddol i bobl gydag anabledd dysgu yng Nghymru, rydym yn edrych ymlaen at weld rhagor o wybodaeth manwl yn y cynllun cyflenwi sydd yn esbonio sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni ei nodau. Rydym hefyd eisiau gweld esboniad o'r nodau ac iddyn nhw fod yn fwy uchelgeisiol yn eu nodau fel y bydd yn gwneud gwahaniaeth mwy sylweddol i fywydau pobl gydag anabledd dysgu yng Nghymru.

Fe wnaeth Anabledd Dysgu Cymru godi cwestiwn yn 2021 sydd yn anffodus yn parhau i fod yr un mor berthnasol heddiw – [Oes yna 'Winterbourne yng Nghymru'?](#) Felly edrychwn at Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu am wybodaeth fanylach a diweddariadau ar gynnydd ond canfyddwn fod cofnodion olaf cyfarfod ym mis Rhagfyr 2019. Mae cyflymder y cynnydd – neu o leiaf gallu dod o hyd i wybodaeth yn gyhoeddus am gynnydd yn digalonni, gan gynnwys:

- Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022 i 2026. Wedi ei ddiweddarau ddiwetha': 24 Mai 2022

- Data Cleifion ac Ysbytai ac Unedau Iechyd Meddwl yng Nghymru. Wedi'i ddiweddarau ddiwethaf: 2019.

Efallai fod niferoedd mor fawr fel ei bod yn bosibl adolygu'n annibynnol sefyllfa pob un person oddi cartref mewn 'lleoliad' anaddas (Pwy sy'n byw mewn neu'n galw cartref 'lleoliad'?) Dywedwn hyn gyda llawer iawn o bwyll. Roedd adolygiad y Farwnes Hollins o ofal a thriniaeth 191 o bobl a oedd yn cael eu cadw mewn arwahaniad hirdymor yn Lloegr ([My heart breaks - solitary confinement in hospital has no therapeutic benefit for people with a learning disability and autistic people](#)) rhwng Tachwedd 2019 a Mawrth 2023 yn gallu edrych ar bob achos a fydd wedi cynnwys pobl o Gymru. Yn anffodus, mae siom cyffredinol ynghylch [diffyg ymateb defnyddiol gan lywodraeth y DU](#) ac rydym yn poeni bod adolygiadau yn gohirio pethau ac yn gallu bod yn brocsi ar gyfer gweithredu/gweithredu ac mae angen i ni ymddiried yn llwyr mewn unrhyw broses adolygu a'r person/pobl sy'n gwneud y gwaith hwnnw.

Faint o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario (yn wael?) ar roi pobl mewn unedau cleifion mewnol a'u cadw yno y gellid eu buddsoddi'n well i gefnogi pobl gartref?

3. Mae arnon ni eisiau i chi ddeall yr hyn y mae teuluoedd fel ein un ni yn ei brofi bob dydd, i glywed ein lleisiau, ac i weithredu ar ein pryderon.

Yn aml iawn pan fyddwn yn mynd i gyfarfodydd, neu'n siarad â phobl mewn 'mannau uchel', nid ydym hyd yn oed yn dweud yr holl bethau ofnadwy sydd wedi digwydd i ni oherwydd mae'n gwneud i ni swnio'n gymysgedd o anghredadwy a 'gwallgof.' Rydym yn poeni bydd pobl hyd yn oed yn gynt i ddiystyru ein pryderon. Yn ein grŵp bach yn unig rydym wedi cael gwybod fwy nag unwaith ein bod yn gyfuniad o fod yn hiliol, alcoholaidd, rhywiol amhriodol, yn rheoli, ac yn anodd. Gallem fynd ymlaen ac ymlaen. Mae'r bai ar y rhiant a'r gofalwr mor gyffredin yr ydym bron yn gyfarwydd ag ef. Ac mae hynny cyn i ni hyd yn oed ddechrau siarad am y peth go iawn – y peth pwysig – i ni: trallod emosiynol a meddyliol bywydau ein plant sydd wedi'u dwyn. Weithiau rydym yn meddwl tybed pam na all y bobl sy'n cau drysau yn ein hwyneb ac yn ysgrifennu llythyrau atom yn dweud fersiwn o, 'rydym yn gwneud popeth y gallwn' ddychmygu dim ond am eiliad, sut mae wedi bod i'n plant a'n teuluoedd. Mae'n dramatig iawn – a defnyddiwn y gair yn fwriadol iawn.

Nid yw beio teuluoedd yn beth newydd a cheir tystiolaeth mewn gwirionedd mewn [ymchwil yn Lloegr](#). Nid oes unrhyw reswm i dybio (a dyma yw'n profiad ni hefyd) nad yw pethau'n wahanol yng Nghymru:

“National and local social care policies in England create a default position for those assessing disabled children, that assumes parental failings. This approach locates the problems associated with a child's impairment in the family – a phenomenon referred to in this report as 'institutionalising parent carer blame'.”

Dylem chwilio am yr holl arferion da sydd ar gael a dysgu oddi wrthynt gan gynnwys, er enghraifft:

- [Dynamic support registers and Care \(Education\) and Treatment Review code of practice](#)
- [Stopping over medication of people with a learning disability, autism or both \(STOMP\)](#)
- [Reducing long term segregation and restrictive practice](#)

4. Rydym yn credu nad ydy neilltuo pobl i ysbyty iechyd meddwl yn ateb, dim ond oherwydd bod gwasanaethau cymdeithasol a darparwyr gwasanaethau yn methu â diwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu a phobl awtistig.

Dylai fod yn fater o ddealltwriaeth glir sy'n sail i'r holl ddeddfwriaeth, Codau Ymarfer a champau gweithredu dilynol sy'n dibynnu ar y fframwaith cyfreithiol hwnnw nad yw is-adranu yn ateb nac yn ddewis arall i ddiwallu anghenion pobl. Mae angen prosesau llymach i sicrhau bod yr holl weithdrefnau wedi'u dilyn yn gywir a ffyrdd clir o wneud heriau pan nad ydynt wedi'u dilyn. Credwn y dylai sefydliadau sy'n methu â dilyn canllawiau fod yn atebol i'r cyhoedd am eu gweithredoedd. Mae ein teuluoedd wedi cael profiadau o gael ein hanwyliaid yn cael eu cadw heb i neb ddweud wrthym, hyd yn oed.

“Gall pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig gael eu rhoi dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar hyn o bryd hyd yn oed os nad oes ganddyn nhw gyflwr iechyd meddwl. Mae hyn yn anghywir gan y gall pobl gael eu cadw mewn ysbyty iechyd meddwl dim ond oherwydd bod diffyg y cymorth cywir yn y gymuned, nid oherwydd bod angen gofal iechyd meddwl cleifion mewnol arnynt.” [No Freedom, No Dignity, No Life](#) (Mencap)

5. Rydym angen i chi weithio gyda sefydliadau sy'n cynrhychioli pobl ag anableddau dysgu a phobl awtistig, yn ogystal ag aelodau o'r teulu, i gynhyrchu cymorth gwell.

Nid ydym ar ein pennau ein hunain yn dymuno i bethau newid. Nid ydym yn cynrhychioli pawb yr effeithir arnynt yn y grŵp 'Bywydau Wedi'u Dwyn'. Nid ydym yn ceisio 'siarad dros' pobl ag anableddau dysgu/awtistiaeth er bod gennym ni fel aelodau o'r teulu hawl i gael llais. Gall grwpiau hunan-eiriolaeth a Sefydliadau Pobl Anabl i gyd gynnig cymorth a doethineb i helpu dod o hyd i ffyrdd gwell o wneud pethau. Estynnwch allan a manteisiwch ar yr arbenigedd hwn mor gynhwysol ag y gallwch. Lle da i ddechrau yw [Datganiad Pobl yn Gyntaf Cymru 'Gwasanaethau cleifion mewnol iechyd meddwl ac anabledd dysgu'](#) sydd, ymhlith pethau eraill, yn dweud:

“In our experience, where our needs are met in an accessible way and close to home, it could avoid us reaching crisis in the first place.”

Efallai bod angen golwg dewr, newydd ar hyn sy'n gofyn am newid enfawr i'r syniad fod pethau cystal ag y gallant fod neu rywsut y bydd llifanu dim byd biwrocraidd yn arwain at ddyddiau gwell. [Pwynt grymus](#) a waned gan y Prif Weinidog, Mark Drakeford am y ffordd y cafodd sgandal Ysbyty Trelái ei ddatgelu gan chwythwr chwiban, oedd:

“It requires an outsider, someone who hasn't just become used to seeing things – who comes in from the outside and says, 'Well, however is that allowed to go on?'”

Pa wasanaethau a chefnogaeth y mae pobl yn eu cael y tu allan i unedau cleifion mewnol – gan dimau cymunedol, cynlluniau atal argyfwng wedi'u cynllunio ar gyfer pobl ac ati, fel nad yw rhoi mewn gwasanaeth cleifion mewnol yn dod i ben neb fel opsiwn? Os yw'r polisi'n dweud mai dyna ddylai fod yn digwydd, yna dangoswch hynny!

Homes

17 April

1.00- PM
2.30

Not

Hospitals

STOLEN LIVES PROTEST

**We are families
campaigning for
the release of
people with
learning disabilities
and/or autism
trapped in mental
health hospitals in
Wales.**

Meeting
outside the
Senedd,
Cardiff
Bay.